**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 4 Medi 2018 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | P M Black | L S Gibbard |
| M H Jones | M B Lewis | R D Lewis |
| P B Smith | A H Stevens | D W W Thomas |
| L J Tyler-Lloyd | T M White | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Dim

---

**22 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y cysylltiadau canlynol:

Y Cynghorwyr C Anderson, P M Black, L S Gibbard, M H Jones, M B Lewis, P Lloyd, P B Smith, A H Stevens, D W W Thomas a T M White – Personol – Cofnod Rhif 25 – Eitem 3 – Cais Cynllunio 2018/1429/FUL – mae'r ymgeisydd yn gyd-gynghorydd.

**23 Cofnodion:**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 7 Awst 2018 fel cofnod cywir

**24 Eitemau i'w gohirio/tynnu'n ôl.**

Dim.

**25 Penderfynu ar Geisiadau Cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.**

Cyflwynwyd cyfres o geisiadau cynllunio ar ran Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas.

Adroddwyd am ddiwygiadau/ddiweddariadau i'r atodlen hon a nodir y rhain isod â (#)

**Penderfynwyd: -**

1) **Cymeradwyo'r** ceisiadau cynllunio isod yn unol â'r amodau yn yr adroddiad a/neu a nodir isod(#):

**# (Eitem 1) Cais Cynllunio 2018/1515/ADV - 3 arwydd uchel wedi'u goleuo'n fewnol, un atalfa 4m o uchder wedi'i oleuo'n fewnol - cantilifer ar y dde, 2 arwydd gwerthwr allweddi wedi'u goleuo'n fewnol, un arwydd bwydlen ddwbl wedi'i oleuo'n fewnol, un arwydd ffrâm baner ac amrywiaeth o arwyddion cyfeiriad ar dir yn Fferm Heol Ddu, Gellifedw, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchwyd y pwyllgor gan Estelle Bubear (gwrthwynebydd).

Anerchwyd y pwyllgor gan y Cynghorwyr M Sykes a P M Matthews (aelodau lleol) a siaradodd yn erbyn y cais.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn: Adroddwyd am lythyr gwrthwynebu hwyr.

**(Eitem 2) Cais Cynllunio 2018/0930/RES - Materion a Gadwyd yn Ôl - manylion mynediad - yn unol â chaniatâd cynllunio amlinellol 2013/0617 a roddwyd ar 30 Hydref 2017 ar gyfer datblygiad preswyl sy'n cynnwys hyd at 92 o anheddau â mynediad, draeniad a man agored cyhoeddus cysylltiedig, ar dir i'r de o Heol Glebe, Casllwchwr, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchwyd y pwyllgor gan Bethan Jones (ar ran Capel Moriah) a Cai Parry (asiant).

Anerchwyd y pwyllgor gan y Cynghorydd R V Smith (Aelod Lleol) a siaradodd o blaid y sylwadau gan Gapel Moriah ynghylch yr angen i ddarparu mannau parcio ar gyfer ymwelwyr â'r capel.

Cymeradwywyd y cais. Cytunwyd y byddai Swyddogion Priffyrdd yn cysylltu â'r Aelod Lleol - pan fydd arian A106 sy'n ymwneud â'r caniatâd cynllunio amlinellol yn cael ei dderbyn - er mwyn trafod yr opsiynau amrywiol sydd ar gael ar gyfer gwario arian A106 i'w darparu ar gyfer gwella diogelwch priffyrdd lleol.

**(Eitem 3) Cais Cynllunio 2018/1429/FUL - Cadw a chwblhau tŷ allan ar wahân yn 4 Gerddi Badminton, Ravenhill, Abertawe**

**(Eitem 4) Cais Cynllunio 2018/1467/FUL - Newid o ddefnydd preswyl (Dosbarth C3) i HMO ystafell wely i 5 person (Dosbarth C4) gyda dormer newydd yn y cefn a chwalu corn simnai yn 45 Stryd Westbury, Abertawe**

Anerchwyd y Pwyllgor gan y Cynghorwyr N J Davies, I E Mann a P N May (aelodau lleol), a siaradodd yn erbyn y cais.

Diwygiwyd Amod 3 i nodi fel a ganlyn:
*Bydd yr ardal storio biniau a'r sied feiciau fel y'u hamlinellir yn y lluniau ADEILADHMO/04 ystlyslun chwith arfaethedig, ADEILADHMO//06 ystlyslun dde*

*arfaethedig, ADEILADHMO/14 cynllun safle arfaethedig a dderbyniwyd ar 16 August 2018, ar gael at ddefnydd y preswylwyr cyn y defnydd buddiol o'r datblygiad ac felly cânt eu cadw ac ar ôl hynny, ni chânt eu defnyddio at unrhyw ddiben arall.*

**(Eitem 5) Cais Cynllunio 2018/1512/FUL - Newid o ddefnydd preswyl (Dosbarth C3) i HMO 6 ystafell wely i 6 pherson (Dosbarth C4) yn 123 Teras Rhyddings, Brynmill, Abertawe**

Anerchwyd y pwyllgor gan Elizabeth Borland (gwrthwynebydd).

Anerchwyd y Pwyllgor gan y Cynghorwyr N J Davies, I E Mann a P N May (aelodau lleol), a siaradodd yn erbyn y cais.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn: Adroddwyd am lythyr gwrthwynebu hwyr.

**(Eitem 6) Cais Cynllunio 2018/1562/FUL - Newid o ddefnydd preswyl i HMO 7 ystafell wely i 7 person yn 47 Cilgant Gwydr, Uplands, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchwyd y pwyllgor gan Matthew Gray (asiant).

Anerchwyd y pwyllgor gan y Cynghorwyr I E Mann a P N May (aelodau lleol) a siaradodd yn erbyn y cais.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn: Adroddwyd am lythyr gwrthwynebu hwyr.

**(Eitem 8) Cais Cynllunio 2018/1723/FUL - Newid o ddefnydd preswyl (Dosbarth C3) i HMO i 5 person (Dosbarth C4) yn St Stephens Court, Ardal Forol, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn: adroddwyd am 13 llythyr gwrthwynebiad a anfonwyd yn hwyr.

**2) Gwrthod** y cais cynllunio a grybwyllir isod am y rhesymau a amlinellwyd yn yr adroddiad:

**(Eitem 7) Cais Cynllunio 2018/1665/FUL - Newid defnydd o 2 fflat hunangynhwysol (Dosbarth C3) i HMO 9 ystafell wely (Sui Generis) i 9 person gyda newidiadau ffenestriad cysylltiedig yn 45 Stryd yr Ysgol, Port Tennant, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchwyd y pwyllgor gan Julian Hoskins (gwrthwynebydd) a Robert Hughes (asiant).

## 26 Apelio Penderfyniad - 199 St Helens Avenue, Brynmill, Abertawe, SA1 4NE.

Rhoddodd Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas adroddiad "er gwybodaeth" am ganlyniad yr apêl cynllunio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Cynllunio ar 6 Mawrth 2018 i wrthod cais am newid o ddefnydd preswyl i HMO 6 ystafell wely.

Amlinellwyd manylion cefndir y cais a phenderfyniad yr Arolygydd Cynllunio yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.09 pm

**Cadeirydd**